VICTIM SUPPORT

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# CYMORTH I DDIODDEFWYR X MAE CASINEB YN BRIFO CYMRU

**Pecyn Partner 2024**

VS
VICTIM SUPPORT

# Cynnwys


03 Gwybodaeth i bartneriaid

05 Ffilm Esbonio

06 Asedau Postiadau Cymdeithasol

08 Ffilmiau Arwr a Chymdeithasol

09 Asedau Postiadau Cymdeithasol




VS VICTIM SUPPORT

Cyflwyniad



# Gwybodaeth i bartneriaid

Pwyslais yr ymgyrch eleni yw helpu i sefydlu Cymorth i Ddioddefwyr fel sefydliad anfeirniadol ar gyfer pobl y mae troseddau casineb yn effeithio arnynt, ac amlygu’r gefnogaeth a’r cyngor cyfrinachol y gallant eu cynnig.

Nod yr ymgyrch yw grymuso dioddefwyr i ddod i gael y gefnogaeth sydd ar gael iddynt, p’un a yw’r drosedd gasineb yn fawr neu’n fach.

Bydd yr ymgyrch hon hefyd yn parhau i godi ymwybyddiaeth o beth yw trosedd casineb, a hyrwyddo’r gwahanol ffyrdd y gall pobl riportio trosedd gasineb.

Byddwn yn lansio ein hymgyrch ddydd Llun 12 Awst. Bydd yr ymgyrch yn cael ei chynnal mewn sawl man cyswllt gan gynnwys hysbysebion digidol ar sawl sianel gan gynnwys Facebook, YouTube a Google a fydd yn rhedeg rhwng Awst 2024 a Mawrth 2025. Ar y cyd â’r holl weithgarwch digidol parhaus, bydd ein hysbysebion ar amrywiaeth o sianeli cyfryngau traddodiadol rhwng 12 Awst a 9 Medi gan gynnwys radio, hysbysebion y tu allan i’r cartref (fformat mawr, rheilffyrdd, hybiau stryd a bysiau), radio digidol, y wasg leol a hyrwyddiad Wales Online.



VICTIM SUPPORT

# Cyflwyniad

## Gwybodaeth i bartneriaid

Er y bydd y gweithgarwch digidol, radio a Wales Online yn ddull Cymru gyfan, bydd gweithgarwch y tu allan i'r cartref, radio digidol a'r wasg leol yn canolbwyntio'n benodol ar ardaloedd â lefelau uwch o droseddau casineb. Mae elfen o'n hysbysebion y tu allan i'r cartref hefyd wedi'i gosod mewn ardaloedd sy'n agos at stadia pêl-droed i gyd-fynd â dechrau tymor pêl-droed 24/25.

Mae angen eich help arnom i godi ymwybyddiaeth o wasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr i annog dioddefwyr i riportio a chael cymorth drwy rannu'r ymgyrch ar eich holl sianeli a'ch rhwydweithiau. Yn y pecyn hwn fe welwch amrywiaeth o asedau'r ymgyrch sy'n addas ar gyfer eu defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag ychydig o gopi yr awgrymir ei rannu ar eich sianeli eich hun.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, adborth neu os hoffech drafod cyfle penodol i ni rannu'r ymgyrch, cysylltwch â ni yn Cohesion@gov.wales

Cliciwch yma i lawrlwytho asedau'r ymgyrch.

*Mae'r holl asedau uniaith ar gael yn Gymraeg a Saesneg.*

Deunyddiau Ymgyrch

## Ffilm Esbonio Cymorth i Ddioddefwyr

Rydym wedi datblygu fideo esbonio ar-lein, i helpu i sefydlu Cymorth i Ddioddefwyr fel sefydliad anfeirniadol sydd yno i gefnogi dioddefwyr. Mae'r fideo yn esbonio pwy yw Cymorth i Ddioddefwyr, pwy y gallant eu helpu a sut y gall pobl gysylltu â nhw.

Gellir rhannu'r fideo ar bob sianel gymdeithasol (Facebook, Instagram, X).

Cliciwch yma i lawrlwytho asedau'r ymgyrch.

*Mae'r holl asedau uniaith ar gael yn Gymraeg a Saesneg.*



# Deunyddiau Ymgyrch

## Asedau postiadau cymdeithasol

Rydym wedi creu ystod o asedau ar gyfer yr ymgyrch i'w defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol (delwedd statig, dilyniant 'carwsél', a fideo) y gellir eu rhannu ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol eich hun. Mae'r holl asedau a ddarperir yn addas ar gyfer Facebook, Instagram ac X.

Rydym yn argymell eich bod yn diffodd yr holl sylwadau wrth hyrwyddo'r asedau hyn ac yn monitro'n agos unrhyw weithgarwch ychwanegol (e.e. rhannu/ailbostio).

Cliciwch yma i lawrlwytho asedau'r ymgyrch.

*Mae'r holl asedau uniaith ar gael yn Gymraeg a Saesneg.*












VS VICTIM SUPPORT

Deunyddiau Ymgyrch

# Copi postiadau cymdeithasol

Rydym hefyd wedi creu detholiad o negeseuon ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol yr awgrymir eu defnyddio fel copi i gyd-fynd ag asedau'r ymgyrch i'ch helpu i gefnogi'r ymgyrch ar eich sianeli. Mae croeso i chi addasu'r negeseuon hyn ar gyfer eich cynulleidfa chi. Mae'r holl gopi a ddarperir yn addas ar gyfer Facebook ac Instagram.

*Am drosedd gasineb fawr neu fach, gall cael help yn gynnar dy helpu i adennill rheolaeth dros dy fywyd.*

*Cysyllta â Cymorth i Ddioddefwyr ddydd a nos drwy ffonio 0300 30 31 982, neu cer i: https://reporthate.victimsupport.org.uk/cymraeg i wybod mwy. Ti ddim ar ben dy hun.*

*#CasinebYnBrifo #HateHurtsWales #CymorthIDdioddefwyr #VictimSupport*

*Os wyt ti wedi dioddef trosedd gasineb, alli di deimlo'n ofnus, ar goll, ac yn unig.*

*Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn cynnig cyngor annibynnol a diduedd am ddim i unrhyw un sydd wedi'i effeithio gan droseddau casineb. I wybod mwy am y cymorth sydd ar gael, cer i: https://reporthate.victimsupport.org.uk/cymraeg*

*#CasinebYnBrifo #HateHurtsWales #CymorthIDdioddefwyr #VictimSupport*

*Gall troseddau casineb ddigwydd yn unrhyw le. Gallai fod yn y gweithle, mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, ar drafnidiaeth gyhoeddus, mewn cymdogaethau a hyd yn oed ar-lein.*

*Mae'n bwysig ein bod yn sefyll gyda'n gilydd yn erbyn troseddau casineb. I wybod mwy am sut i riportio trosedd gasineb, cer i: https://reporthate.victimsupport.org.uk/cymraeg*

*#CasinebYnBrifo #HateHurtsWales #CymorthIDdioddefwyr #VictimSupport*

# Deunyddiau Ymgyrch

VS
VICTIM SUPPORT

## Ffilmiau arwr a grymuso cymdeithasol

Byddwn yn parhau i hyrwyddo deunyddiau'r ymgyrch o weithgarwch blaenorol i ategu dealltwriaeth pobl o droseddau casineb, a pha mor bwysig yw sefyll yn erbyn troseddau casineb.

Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo'r Heddlu fel lle i fynd i roi gwybod am drosedd.

Cliciwch yma i lawrlwytho asedau'r ymgyrch.

*Mae'r holl asedau uniaith ar gael yn Gymraeg a Saesneg.*





# Deunyddiau Ymgyrch

## Asedau postiadau cymdeithasol

Rydym hefyd wedi creu asedau mwy cyffredinol yn rhan o'r ymgyrch y gellir eu rhannu ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol eich hun. Mae'r holl asedau yn addas ar gyfer Facebook, Instagram ac X.

Rydym yn argymell eich bod yn diffodd yr holl sylwadau wrth hyrwyddo'r asedau hyn ac yn monitro'n agos unrhyw weithgarwch ychwanegol (e.e. rhannu/ailbostio).

Cliciwch yma i lawrlwytho asedau'r ymgyrch.

*Mae'r holl asedau uniaith ar gael yn Gymraeg a Saesneg.*















VICTIM SUPPORT

Deunyddiau Ymgyrch

## Copi postiadau cymdeithasol

Rydym wedi creu detholiad o negeseuon a awgrymir ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol y gellir eu defnyddio fel copi i gyd-fynd ag asedau'r ymgyrch i'ch helpu i gefnogi'r ymgyrch ar eich holl sianeli. Mae croeso i chi addasu'r negeseuon hyn ar gyfer eich cynulleidfa chi. Mae'r holl gopi yn addas ar gyfer Facebook ac Instagram.

*Ni ddylai neb oddef casineb. Safwn yn erbyn trosedd gasineb. Riportia fe a chael cymorth.*

*#CasinebYnBrifo #HateHurtsWales*

*llyw.cymru/casinebynbrifo*

*Does dim lle i gasineb yng Nghymru. Rydyn ni eisiau i droseddwyr wybod na fyddan nhw'n cael parhau â'u casineb. Riportia fe a chael cymorth. Safwn yn erbyn trosedd gasineb.*

*#CasinebYnBrifo #HateHurtsWales*

*llyw.cymru/casinebynbrifo*

*Mae casineb yn brifo Cymru. Os wyt ti'n ei weld yn digwydd, riportia fe a chael cymorth. Safwn yn erbyn trosedd gasineb.*

*#CasinebYnBrifo #HateHurtsWales*

*llyw.cymru/casinebynbrifo*

VICTIM SUPPORT

Llywodraeth Cymru
Welsh Government




Os oes gennych unrhyw gwestiynau, adborth neu os hoffech drafod cyfle penodol i ni rannu'r ymgyrch, cysylltwch â ni yn Cohesion@gov.wales

MAE CASINEB YN BRIFO CYMRU